# ATODLEN 3

## Hysbysiadau

### Hysbysiadau o dan reoliad 12 (barnau cwmpasu gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol)

**5.** Y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 12(7)(b) yw—

(a) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid cyflwyno'r datganiad amgylcheddol drafft (sef y dyddiad pan ddaw'r cyfnod perthnasol at ddibenion rheoliad 17(2) i ben);

(b) bod rhaid i'r datganiad amgylcheddol drafft gynnwys yr holl wybodaeth a bennir yn y farn gwmpasu;

(c) effaith rheoliad 17(8) (atal);

(ch) effaith rheoliad 50 (parhad ataliad);

(d) effaith rheoliad 51 (gwahardd);

(dd) effaith rheoliad 16 (gweithdrefn i hwyluso paratoi datganiadau amgylcheddol);

(e) effaith rheoliad 12(9) (nid yw mabwysiadu barn gwmpasu yn atal yr hawl i fynnu cael gwybodaeth bellach neu dystiolaeth);

(f) effaith rheoliad 18 (datganiad amgylcheddol drafft: gwiriadau cyn cyhoeddi);

(ff) y ddyletswydd a osodir ar y ceisydd gan reoliad 46 (cyhoeddusrwydd);

(g) yr hawl i herio'r farn gwmpasu a'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud hynny.